# EVANS, EVAN (1758 - 1828), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** Evan Evans
**Dyddiad geni:** 1758
**Dyddiad marw:** 1828
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn 1758 a thrigai yn y Ffos, Llanwrtyd, sir Frycheiniog. Bedyddwyr oedd ei rieni, ond ymunodd ef â'r Methodistiaid yn 1775 a'i fedyddio yn Llangeitho gan Ddaniel Rowland. Dechreuodd bregethu yn 1778, ond nid esgynnodd erioed i'r rheng flaenaf. Bu'n gyfrwng i sicrhau tir i godi llawer o gapeli'r Methodistiaid ym Mrycheiniog. Dewiswyd ef gan ei sir i'w neilltuo yn ordeiniad cyntaf y Methodistiaid yn Llandeilo Fawr, 1811. Bu farw 22 Awst 1828, a chladdwyd ef yn Llanwrtyd.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), iii, 332

Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body ... to the close of the year 1850* (1907), 70

J.M. Jones, *Ordeiniad 1811 ymysg y Methodistiaid Calfinaidd* (1911), 150


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733021


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu